**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LN/01428/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Ionawr 2026

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r ddeiseb a gyflwynwyd gan Danielle Jones ynglŷn â mynediad at gymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru.

Rwy'n rhannu'r pryder a amlygwyd yn y ddeiseb, sef bod rhai teuluoedd yn profi anawsterau wrth gael mynediad at gymorth heb gael diagnosis ffurfiol o gyflyrau niwroamrywiol. Mae'r gyfraith yn glir yn hyn o beth: mae'n nodi y dylai'r cymorth i blentyn ag ADY bob amser fod wedi'i seilio ar angen, ac nid oes angen diagnosis o gyflwr ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch ADY dysgwr nac ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY). Yn yr un modd, nid yw diagnosis meddygol ffurfiol o reidrwydd yn golygu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY. Rhaid i benderfyniadau am ADY fod yn seiliedig ar a yw anghenion y dysgwr yn galw am DDdY. Mae'r egwyddor hon yn ganolog i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cod ADY, sy'n nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth cywir i gael mynediad at addysg yn effeithiol.

Mae'r system ADY yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar anghenion, gan roi'r ffocws ar ddiwallu anghenion y dysgwr yn hytrach nag ar y math o anabledd neu anhawster dysgu sydd ganddo. Mae cyflawni rhagoriaeth, tegwch a lles i bob plentyn a pherson ifanc wrth wraidd ein system addysg. Rydym am greu system addysg gynhwysol lle gwrandewir ar anghenion dysgwyr ac yr ymatebir iddynt, a lle mae pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gymryd rhan lawn mewn addysg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn ymwybodol bod rhai teuluoedd yn cael anawsterau wrth gael at gymorth heb ddiagnosis ffurfiol. Gall y materion hyn ddeilio o amrywiadau mewn arferion yn lleol neu achosion o gamddeall y gofynion cyfreithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol, ysgolion a rhieni i wella ymwybyddiaeth o'r fframwaith cyfreithiol a chefnogi gweithredu'r ddarpariaeth seiliedig ar anghenion y system ADY yn gyson. Mae monitro ac adborth gan deuluoedd yn ein helpu i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau o ran mynediad.

Mae'r ddeiseb hefyd yn codi pryderon am blant yn cael eu hamddifadu o addysg amser llawn neu'n cael eu rhoi ar amserlenni byr neu ran-amser. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn glir y dylid defnyddio amserlenni rhan-amser mewn amgylchiadau eithriadol yn unig ac fel mesur tymor byr, gyda'r nod o weld y dysgwyr yn dychwelyd i addysg amser llawn lle bo hynny'n bosibl. Rydym yn cydnabod y pryderon am y defnydd cynyddol ohonynt ac yn bwriadu cyhoeddi canllawiau pellach ar amserlenni rhan-amser a mathau eraill o waharddiadau cudd.

Mae hyn, ynghyd â chamsyniadau eraill, yn cael sylw yn [y pecyn cymorth] newydd i rieni a gofalwyr plant ag ADY, sydd wedi'i gynllunio i helpu teuluoedd i ddeall sut mae'r system ADY yn gweithio a pha gymorth sydd ar gael os pennir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY. Yn ogystal ag esbonio'r system anghenion dysgu ychwanegol, mae hefyd yn darparu canllawiau ymarferol clir ynghylch ble y gall teuluoedd ddod o hyd i gymorth a chefnogaeth.

Rwy'n cymryd pryderon a godir gan rieni o ddifrif, gan gynnwys y profiadau a amlygwyd yn y ddeiseb hon. Rwy'n parhau i fod yn benderfynol o sicrhau bod pob plentyn ag ADY yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan lawn mewn addysg a chael y cyfle i ffynnu.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education